

PWYLLGOR CYNLLUNIO
DYDD MERCHER, 1 MEDI 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 1 Medi 2021

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Richard Lloyd (Is-gadeirydd yn y Gadair)

Cyngorwyr: Mike Allport, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Gladys Healey, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Ted Palmer, Mike Peers, Neville Phillips, Owen Thomas a David Wisinger.

YMDDIHEURIADAU: Cyngorwyr: Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler a Veronica Gay

HEFYD YN BRESENNOL:

Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Swyddogion Cynllunio, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiadau Priffyrdd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democraidaidd a'r Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

14. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorydd Christine Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ar eitem rhif 6.1 ar y Rhaglen (062135), gan fod y safle'n agos at ei chartref. Dywedodd y byddai'n siarad am 3 munud ar y cais ac yn tynnu'n ôl o'r cyfarfod tra'r oedd y cais yn cael ei ystyried.

15. SYLWADAU HWYR

Ni chafwyd unrhyw sylwadau hwyr.

16. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 21 Gorffennaf 2021.

Tudalen 9: Cyfeiriodd Patrick Heesom at gais 060591 a gofynnodd a yw amodau'r cais yn cael eu bodloni. Cytunodd y Rheolwr Datblygu i roi diweddariad i'r Cyngorydd Heesom ar ôl y cyfarfod.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir a chawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cyngorwyr David Wisinger a Mike Allport.

PENDERFYNWYD:

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

17. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio dim un o'r eitemau.

18. **ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

PENDERFYNWYD:

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi ei gynnwys fel atodiad.

19. **AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod nid oedd yr un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 pm a daeth i ben am 1.55 pm)

.....
Cadeirydd

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwyllo drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau: <https://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

PWYLLGOR CYNLLUNIO 1 MEDI 2021

RHIF YR EITEM	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE / CAIS	SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL	PENDERFYNIAD
062135	Cyngor Cymuned Sealand	Cais ar gyfer amrywio amod rhif 2 (Cynlluniau Cymeradwy) sydd ynghlwm â chaniatâd cynllunio cyfeirnod (057808)	<p>Siaradodd y Cyngorydd Christine Jones yn erbyn y cais ar ran y trigolion lleol. Ni wnaeth y Cyngorydd Jones gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio fel y nodir dan yr eitem Datgan Cysylltiad.</p> <p>Siaradodd Mr C Marchant, preswylydd lleol, yn erbyn y cais.</p> <p>Siaradodd Mr R Williams, yr Ymgeisydd, o blaid y cais.</p>	<p>Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad swyddog, ar y sail ganlynol:</p> <p>(i) nid yw'r ffens yn cyd-fynd â'r ffens yn yr ardal gyfagos; a</p> <p>(ii) nid yw'r mynediad yn cyrraedd y safon</p>